



# **Gwahoddiad i Dendro**

**Ar gyfer cynnal adolygiad annibynnol o  
gynllun Sefydlu a Symud**

## Cyflwyniad i Mudiad Meithrin

***“Ble bynnag mae ‘na blant, fe ddylai’r Mudiad – ac felly’r Gymraeg – fod yno”***

Mae Mudiad Meithrin yn fudiad gwirfoddol sy'n arbenigo ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar. Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

***“Ein braint a'n nod yw hwyluso gofal ac addysg o safon yn Gymraeg i blant bach o bob cefndir ym mhob cwr o'r wlad. Gwnawn hyn trwy ehangu'n gwasanaethau fel rhan o'r ymdrech genedlaethol i drechu tlodi a darparu cyfleoedd i bob plentyn yng Nghymru fanteisio ar brofiadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.”***

*Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin yn 'Dewiniaith'*

## Cefndir Mudiad Meithrin

Prif nod Mudiad Meithrin yw cynnig gofal ac addysg blynyddoedd cynnar yn Gymraeg gan annog dilyniant o grwpiau Cymraeg i Blant i'r cylch Ti a Fi ac ymlaen i'r cylch meithrin a'r ysgol Gymraeg. Bellach mae'n darpariaethau hefyd yn cynnwys meithrinfeydd dydd, sesiynau meithrin mewn meithrinfeydd preifat, gofal dydd llawn ac amrediad o ofal cofleidiol (“wrap-around care”). Y Mudiad yw'r darparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mwyaf yn y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Sefydlwyd y Mudiad ym 1971, gydag oddeutu 50 cylch. Erbyn hyn, wedi tyfu'n aruthrol, mae tua 500 o gylchoedd meithrin a 400 o gylchoedd Ti a Fi, a 145 o grwpiau Cymraeg i Blant yn perthyn i'r Mudiad. Mae'r cylchoedd meithrin a'r cylchoedd Ti a Fi yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i oddeutu 22,000 o blant bob dydd. Yn ogystal, mae'r Mudiad yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chynngor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2,500 ychwanegol yn gweithio ac yn gwirfoddoli yn y cylchoedd a'r meithrinfeydd eu hunain. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o Swyddogion Cefnogi proffesiynol sy'n eu cynghori ar faterion yn ymwneud â hybu ymarfer da, hyfforddiant staff, Estyn / AGC, materion elusennol, cyswllt ag Awdurdodau Lleol ayyb.

Credwn fod bodolaeth cylch meithrin yn dyst i'r galw mewn cymunedau rif y gwlith am addysg Gymraeg ac mai dim ond cynyddu wnaiff y galw os llwyddwn ni, fel ein partneriaid, i hyrwyddo ac annog manteision addysg cyfrwng Cymraeg a chynnig gofal o safon ac addysg blynyddoedd cynnar ansawdd uchel.

## Targedau, cefndir ac amlinelliad gwreiddiol o Gynllun Sefydlu a Symud

### Targedau

Mae dau darged penodol gan y Mudiad Meithrin i'w gwireddu erbyn mis Mawrth 2021 (ers eu gosod gyda Llywodraeth Cymru yn 2017) sef:

1. Agor 40 Cylch Meithrin/Ti a Fi erbyn diwedd 2021 trwy gynyddu niferoedd y plant yn y Cylchoedd Meithrin.
2. Cynyddu dilyniant o 86.4% i 87.2% erbyn 2021 i gyfrannu at y nod yn 'Cymraeg 2050' o gynyddu dilyniant i 90%.

### Cefndir ac amlinelliad gwreiddiol

Mae 'Sefydlu a Symud' (SAS) yn gynllun gwaith penodol gan Mudiad Meithrin sy'n ymateb i Raglen Waith #Cymraeg2050 sef Strategaeth Iaith newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fis Gorffennaf 2017. Mae'r cynllun yn deillio hefyd o ymateb Mudiad Meithrin i'r Strategaeth Iaith sef y ddogfen #MeithrinMiliwn. Mae #Cymraeg2050 yn rhoi pwyslais arbennig ar gyfraniad y Blynyddoedd Cynnar i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Derbyniwyd £1 miliwn o arian ychwanegol y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i sefydlu tîm newydd o staff fydd yn gyfrifol am agor a datblygu Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi newydd ble mae tystiolaeth yn dangos fod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae ardaloedd wedi eu hadnabod i'w targedu yn ystod y flwyddyn gyntaf cyn symud ymlaen i ddatblygu ardaloedd eraill yn ystod yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn (sef eleni).

Mae tîm o staff newydd wedi cael eu penodi – sef Tîm Sefydlu a Symud a fydd yn cynnwys 6 Swyddog Sefydlu a Symud. Byddant yn gyfrifol am agor a sefydlu o leiaf 2 Gylch Meithrin newydd bob blwyddyn cyn symud ymlaen i agor rhagor o gylchoedd mewn ardal arall. Bydd yn unigolion hyn yn ffurfio rhan o dîm staff y dalaith y byddant yn gweithio ynddi (mae'r Mudiad wedi trefnu Cymru yn 4 talaith – dwy yn y gogledd a dwy yn y de) ac yn atebol i Reolwr y Dalaith honno. Bydd Prif Swyddog SAS yn cael ei benodi hefyd a bydd yr unigolyn yma'n gyfrifol am fonitro cynnydd y cynllun ledled Cymru.

Bydd y gwaith presennol ar lawr gwlad o gefnodi ac ehangu'r adrpariaethau yn parhau ledled Cymru a hynny thrwy gefnogaeth Swyddogion Cefnogi penodedig. Bydd tîm Sefydlu a Symud un sicrhau fod y gefnogaeth bresennol yn parhau i'r 440 o Gylchoedd Meithrin sy'n bodoli eisioes trwy ryddhau amser y Swyddogion Cefnogi ar lawr gwlad i ganolbwyntio ar y gwaith cefnogi a bugeilio.

Er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun bydd rhaid sicrhau dilyniant i addysg Gymraeg. Bydd sicrhau fod trafodaethau a blaengynllunio gyda'r Awdurdodau Lleol yn allweddol er mwyn sicrhau fod y CSGAau yn gallu cwrdd a'r galw cynyddol fydd am addysg Gymraeg ym mhob sir yng Nghymru.

## Cyfle i dendro

Gwahoddir ceisiadau gan gwmnïau i dendro i gynnal adolygiad o waith y cynllun Sefydlu a Symud yn ystod y cyfnod o Ebrill 2018 i Mawrth 2021 yn benodol er mwyn dylanwadu ar siâp y rhaglen yn ystod tymor nesaf y Senedd (o 2021 i 2026) gan nodi fod Mudiad Meithrin yn ei manifesto wedi galw am sefydlu 60 Cylch Meithrin yn ystod y cyfnod (gyda tharged dilynol o 50 yn y cyfnod 2026 i 2031) er mwyn bodloni'r targed o 150 Cylch Meithrin newydd erbyn 2030 (sef yr hyn a nodir yn nogfen strategol 'Cymraeg 2050').

**Gyda hyn mewn golwg, gwahodddwn gwmnïau addas i dendro am waith i gynnal adolygiad annibynnol o weithgaredd cynllun Sefydlu a Symud. Disgwylir adroddiad cynhwysfawr gydag argymhellion.**

## Manylion y tendr

Dylai cwmnïau gyflwyno portffolio trwy e-bost i gefnogi eu cais i baratoi tendr gan amlinellu eu profiad a'u haddasrwydd yn y maes polisi dan sylw. Dylai'r cais gynnwys:

- Manylion y cwmni
- Profiad blaenorol
- Dealltwriaeth o'r Blynyddoedd Cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru
- Methodoleg a dull adolygiad arfaethedig yn cynnwys materion a chwestiynau craidd
- Cynulleidfa debygol
- Costau
- Ffurf y gwerthusiad terfynol
- Astudiaeth achos o brofiad blaenorol

Fe ddylai'r cwmni fod yn barod i fynychu cyfweiliad ar gyfer penderfynu ar y dyfarniad llwyddiannus heb godi ffi am hynny.

## Meini prawf gwerthuso a phwysoliad

Fe'ch cyfeirir at yr adran flaenorol gyda'r caveat y gwerthusir pob cais gyda'r meini prawf a'r pwysoliadau a ganlyn:

| Meini prawf Gwerthuso | Pwysoliad |
|-----------------------|-----------|
| 1.Profiad blaenorol   | X2        |
| 2.Costau              | X2        |

|  |    |
|--|----|
| 3. Dealltwriaeth o'r Blynyddoedd Cynnar, gofal plant a chwarae a pholisi iaith yng Nghymru | X4 |
| 4. Methodoleg a dull gwerthuso arfaethedig yn cynnwys materion a chwestiynau craidd        | X3 |

### laith

Dylid gallu cynnal yr adolygiad trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r adolygiad terfynol fod yn Gymraeg (ac ar gael yn Saesneg i rannu gydag eraill).

### Ffurf

Dylai'r adolygiad fod ar ffurf ddigidol gyda 10 copi caled.

### Esiamplau o gwestiynau craidd

- Pa agweddau o waith y cynllun sydd wedi gweithio yn effeithiol i gyfrannu at gyrraedd y targedau?
- Pa agweddau o waith y cynllun sydd ddim yn gweithio yn effeithiol a pham?
- Ydi'r dulliau presennol o adnabod ardaloedd i agor Cylchoedd Meithrin newydd yn effeithiol?
- Pa heriau sydd wedi codi yn ystod y cynllun oedd ddim wedi eu rhagweld cyn i'r cynllun gychwyn?
- Ydi'r model gweithredu presennol yn galluogi'r Cylchoedd Meithrin newydd i gael eu trosglwyddo i Swyddogion Cefnogi yn amserol er mwyn rhyddhau'r Swyddogion SAS i symud ymlaen?
- Ydi modelau gweithredu amgen yn cael eu cysidro ym mhob talaith e.e. cydweithio gyda phartneriaid fel Blynyddoedd Cynnar Cymru, NDNA, Clybiau Plant Cymru; cydweithio gyda darparwyr preifat?
- Oes angen rhoi mwy o bwyslais ar gynladwyedd ariannol Cylchoedd Meithrin newydd yn ystod y cyfnod cynllunio / targedu?
- Ydi parhau i agor Gylchoedd Meithrin newydd yn unig o dan y cynllun SAS yn mynd i fod yn bosib fel mae nifer yr ardaloedd sydd heb Gylch Meithrin yn lleihau dros amser? Oes angen ystyried gallu defnyddio cynllun SAS i ehangu oriau neu gwasanaethau Cylchoedd Meithrin sydd eisoes yn bodoli? Sut mae gwneud hynny mewn modd sy'n cynyddu niferoedd y plant?
- I ba raddau mae lefel cyllideb cynllun SAS fel y mae yn ddigonol i gyflawni'r gwaith?
- Oes ffyrdd gwahanol/gwell i fesur cynnydd y cynllun na cyfri nifer y Cylchoedd newydd e.e. cyfri nifer y plant ar gofrestr Cylch Meithrin sydd yn ehangu gwasanaethau/oriau?
- Pa effaith mae prosesau tendro gan rhai Awdurdodau Lleol yn effeithio ar y gallu i agor darpariaethau newydd yn yr Awdurdodau Lleol yna?

## Beth fydd yn digwydd i'r adolygiad?

Bydd yr adolygiad, wedi ei gwblhau, yn cael ei gyflwyno i swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru trwy law Mudiad Meithrin. Dylid cadw mewn cof y gall fod diddordeb eang yn yr adolygiad ac felly dylai'r adolygiad fod yn eglur, hawdd ei ddeall gan osgoi gormod o jargon. Fe all ddiweddu'n cael ei gyhoeddi.

## Amlinelliad costau

Dylid cyflwyno amlinelliad o gostau (yn cynnwys TAW a threuliau perthnasol). Cysylltwch gyda Sali Edwards os ydych eisiau sgwrs i drafod y gyllideb.

## Amserlen

Gwahoddir cwmnïau i gyflwyno cais yn dilyn y cyngorion uchod erbyn 12.00yp, Chwefror 28. Fe all fod cyfweiliadau ac os bydd, cynhelir y rhain yn ystod yr wythnos yn dechrau Mawrth 1. Dyfernir y tendr trwy e-bost erbyn Mawrth 5 fan bellaf. Cynigir y dylai'r adolygiad gychwyn cyn diwedd Mawrth 2021 ac y dylid cyflwyno drafft terfynol erbyn diwedd Mai 2021. Bydd y Mudiad yn rhannu'r drafft gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.

## Ar ôl dyfarnu'r tendr

Disgwylir i'r cwmni llwyddiannus benderfynu ar fethodoleg addas i gynnal yr adolygiad ond awgrymwyn gynnal grwpiau ffocws, sgysiau un-i-un, dadansoddi dogfennau, holiaduron a.y.y.b.

Disgwylir i'r cwmni llwyddiannus siarad gyda thrawstoriad o bobl wrth gynnal yr adolygiad e.e. staff Mudiad Meithrin ar bob lefel, staff a gwirfoddolwyr cylchoedd meithrin sydd wedi agor fel rhan o gynllun Sefydlu a Symud, swyddogion perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru.

Darperir, ar gais y cwmni llwyddiannus, ddogfennaeth angenrheidiol i gynnal gwaith ymchwil desg e.e. gopïau o holl dargedau mewnol Mudiad Meithrin, pob adroddiad monitro chwarterol, diweddariadau tymhorol, cofnodion cyfarfodydd tîm arbenigol Sefydlu a Symud.

Bydd y Prif Swyddog Sefydlu a Symud, Sali Edwards, wrth law i egluro unrhyw dargedau, i ddarparu unrhyw fanylion cyswllt neu fanylion eraill.

## Cysylltu

Am fanylion pellach cysyllter â:

Sali Edwards  
Prif Swyddog Sefydlu a Symud Mudiad Meithrin

07494 491790  
E-bost: [sali.edwards@meithrin.cymru](mailto:sali.edwards@meithrin.cymru)

## Dyddiad cau y tendr:

12.00yp – Chwefror 28 2021